

Ymfudodd nifer o bobl o sir Gaerfyrddin, neu rhai â chysylltiad â'r sir, i'r Wladfa, a dyma rywfaint o wybodaeth am rai ohonynt.

### DAVID BOWEN, TRES CASAS

Dywedir fod David Bowen yn enedigol o Drelech-a'r-Betws, ond symudodd yn ddyn ieuanc i Pentre, Y Rhondda, a phriodi Mary Anne Williams. Yn 1875 ymfudodd David, Mary Anne a'u plant i'r Wladfa ar yr *Olbers* a glanio yn aber y Camwy ar 31 Hydref. Symudodd y teulu yn fuan o Drerawson i Drofa Fresych lle buont am yn agos i dair blynedd. Yn gynnar yn 1878 aethant i'r Gaiman lle adeiladodd David Bowen dŷ cerrig wrth droed y bryniau. Tua dechrau gaeaf 1879 symudodd y teulu eto, i dyddyn yn y Dyffryn Uchaf, ardal a enwyd wedi hynny yn Drebowen. Pan adeiladwyd capel yn Nhrofa Gwen Ellis yr oedd David Bowen yn aelod ohono ac yn un o'r swyddogion. Cyn hir cafwyd lleoliad newydd i'r capel hwnnw a rhoddwyd yr enw Bethesda arno. Llanwodd David Bowen swyddi pwysig fel diacon ac Ysgrifennydd Eglwys Bethesda.

Yr oedd yn un o'r fintai fechan aeth i'r creigiau ym mhen Dyffryn Uchaf yn Nhachwedd 1881 i edrych am le i wneud camlas. Bu ei wybodaeth o diroedd y Dyffryn Uchaf yn fantais fawr i'r rhai oedd am leoli tyddynnod yn yr ardal honno.

Bu farw eu mab hynaf, David, ac un o'i ferched o'r *typhoid* yn 1883. Priododd Thomas ag Elizabeth Knowles, Marged Ann ag Alun Meirion Williams, Mary Jane ag Adrian Eusebio López, Benjamin â Margaret Jane Roberts, Elizabeth â William Henry Thomas, Hannah â William John Lloyd a Sarah â José Isabel Quiroga.

Bu David Bowen farw 16 Tachwedd 1920 yn 76 mlwydd oed. Dywed erthygl goffa iddo yn rhifyn 26 Tachwedd 1920 o'r *Drafod*, 'Gwnaeth ei orau i ddatblygu'r Wladfa yn dymhorol, Moesol, a chrefyddol.... gwladgarwr a chymydog hynod gymwynasgar a pharod, cymeriad gwastad, tawel, serchog a hoffus'.

### ADA DAVIES

Dywedir fod Ada Davies, gwraig William Jones y gof, yn hanu o Lwyn Gron, Pencader. Hyd 1883 yr oed Pencader ym mhlwyf Llanfihangel ar Arth ond nid yw Lwyn Gron yn ymddangos yng nghofnodion y cyfrifiad am y plwyf hwnnw, er bod yna Lwyn Crwn; nid yw enw Ada yn ymddangos ymysg aelodau'r tŷ hwnnw. Serch hynny, mae yna dŷ o'r enw 'Llain' (Llain) yn y plwyf ac ar gyfrifiad 1851 mae yna Ada, 4 mlwydd oed, yn byw yno gyda'i rhieni - Thomas Davies, 30, a aned ym mhlwyf Llanfihangel ar Arth, ei wraig Hannah, 28, a aned ym mhlwyf Llanllawddog, a'r plant Elinor 8, Anne 6, Ada 4 a Mary 1, wedi'u geni, meddir, ym mhlwyf Llanfihangel ar Arth. Yr enw a roddir ar eu cartref ar gyfrifiad 1861 yw Llain y bryn a honnir i'r plant (Mary 11 mlwydd oed a phlant iau) cael eu geni ym mhlwyf Llansteffan.

Priododd merch o'r enw Ada Davies â William Jones yn ardal cofrestru Merthyr Tudful yn chwarter Rhagfyr 1870, ac ar gyfrifiad 26 Brook Street, Fforchaman, Aberdâr yn 1871 mae yna William Jones, Gof 22 mlwydd oed, wedi ei eni yn Llanllawddog, a'i wraig Ada yn 24 ac wedi'i geni ym mhlwyf Llanpumsaint.

Ar gyfrifiad 1895 y Wladfa mae William Jones yn 45, Gof, Ada ei wraig yn 46. Roeddent wedi bod yn briod am 25 o flynyddoedd. Y plant oedd Thomas William, 15, David 13, Mary 11, Ann 9, Eleanor 6, a Lottie 3, y chwech ohonynt wedi'u geni yn yr

Ariannin. Priododd Thomas â Jane Hughes, Ann gyda Gwilym Evans; priododd Mary â Cyrus Evans; bu David farw ar 23 Mai 1923 yn 42 mlwydd oed; priododd Ellen married â Thomas Saunders ac aeth Lottie i Gymru, priododd yno ac ymfudo i Ganada.

Bu Ada Jones farw ar 10 Hydref 1909 a William Jones ar 5 Mehefin 1831 yn 85 mlwydd oed.

#### DAVID D. DAVIES, PANTYBLODAU

Ceir cofnod yn y *Drafod* am farwolaeth David D. Davies, Pant y blodau, ar 19 Chwefror 1928. Dywedir iddo fynd i'r Wladfa o Landeilo. Ym mis Mehefin 1929 bu farw ei ferch oedd yn briod a John Isaac Jones, Bryn Gwyn, ac ar 10 Mai 1934 ceir cofnod am farwolaeth ei fab, Meredydd Rhys, yn 48 mlwydd oed.

#### JOHN DANIEL DAVIES

Yn ôl yr hanes a geir yn y llyfr *Nel Fach y Bws*, hunangofiant Ellen Davies a luniwyd gan ei merch yng nghyfraith Marged Lloyd Jones, ganwyd John Daniel Davies yn fab i John Daniel Davies a Rachel yn ardal Rhos, Llangeler. Bu'n llyfrwerthwr yn y Rhondda cyn gwerthu ei eiddo, ar wahân i'w lyfrau ac ychydig drysorau personol, ac ymfudo i'r Wladfa o Lerpwl gyda'i wraig Hannah a'r plant, John, William ac Ellen (Nel). Enw eu cartref yn y Wladfa oedd Llainlas. Bu farw Hannah ar enedigaeth plentyn ar 30 Ionawr 1888 yn 36 mlwydd oed.

Priododd John Daniel Davies a'i ail wraig Sarah Hannah, tua 1889 a'i chymryd i'r Wladfa, ond bu hi farw yno yn 1891. Edrydd Ellen bod gan ei thad hiraeth am Twlch-clawdd ei gartref ac am ardal Llangeler, a dychwelodd i Gymru gyda'i ferch Ellen, ei fab Dyfrig, Anna gwraig ei fab William, a'i wŷr Johnnie. Yn chwarter Medi 1901 ceir cofnod priodas John Daniel Davies a Sarah Evans, ac ar gyfrifiad Maes y berllan, Felindre yn 1911 gwelir John D. Davies, Llyfrwerthwr 70 mlwydd oed, gyda'i wraig Sarah, 48 a'u mab Samuel, 8. Roedd John D. a Sarah wedi bod yn briod am naw mlynedd.

Priododd Ellen â Thomas Jones yn 1903 a chael dau o blant, Hannah Emily a William John. Gadawodd ei brawd John Daniel y Wladfa am Ganada gyda'i wraig Sarah a thri o blant bach yn 1902 a marw yno yn 1939. Ymfudodd William David ei brawd i Dde Affrica, a marw yno yn 1902, a bu farw'r brawd arall Dyfrig yn Ne Affrica, hefyd, yn 1950. Bu Ellen farw yn 1965.

#### DAVID EVANS, MAEN GWYN

Ymfudodd David Evans a'i wraig Mary Davies a'u plant Benjamin, Sarah ac Anne i Batagonia ar y *Vesta* yn 1886. Roedd David, a aned ar 24 Rhagfyr 1858, yn fab i James a Hannah Evans, Melin Glanduar, Llanybydder a phriododd David a Mary Davies pan oedd David tua un ar hugain mlwydd oed. Gwnaethant eu cartref ym Maen Gwyn, Treorcky, ac yno y ganed chwe phlentyn arall: Rachel, 1887, James, 1889, Rosana, 30 Mehefin 1891, Daniel R., 1893, Mair, 1896 a Martha, 1898. Priododd Sara a Caswallon Jones yn 1902; priododd Anne gyda Morgan Howells; Rachel â Samuel Brooks; James â Margaret Jones; Rosana â Robert Thomas; Daniel â Rachel Jones; Mair â James Peter

Jones; gŵr cyntaf Martha oedd Vincente Zonza a'r ail Manuel Ecchevaria. Roedd David a Mary yn cefnogi'r ysgol fach wledig ac yn aelodau yng Nghapel Bethlehem.

Bu David yn ffermio yng Nghymru ond aeth i'r Wladfa i osod y rheilffordd o Borth Madryn i Drelew, a bu'n llafurio'n galed ar y paith gyda'r gwaith hwnnw, yn cychwyn o'r Dyffryn gyda bwyd wythnos a'i ddillad gwely ar ei gefn ar dywydd annioddefol o boeth. Ar ôl gweithio ar y rheilffordd am dipyn penderfynodd droi at ffermio a symud i ardal Bryn Crwn am gyfnod byr ac oddi yno i ardal Tres Casas. Symud wedyn i dyddyn ar waelod Bryn Gwyn. Prynodd dyddyn o 100 hectar yn ardal Treorci ac ar ôl talu am hwnnw prynodd un arall. Dywedir ei fod yn un da am ffermio, ac enillodd enw iddo'i hun fel codwr gwenith.

Adroddir iddo fynd ar ymweliad â'r Hen Wlad tua 1911 er mwyn gweld ei fam oedd yn byw yn Nantgaredig a hefyd i weld ei frodyr a'i chwiorydd ar hyd a lled Cymru. Bu David Evans farw ym mis Ebrill 1928 yn 69 mlwydd oed.

### Y PARCH. ESAU EVANS

Ganwyd Esau Evans yn 1848, yn un o ddeg o blant Esau Evans a Rachel Lloyd, yr Hooks, Llanstephan, a oedd tan 1863 yn rhan o blwyf Llanybri. Gof oedd ei dad o blwyf Llanboidy, ac roedd ei fam yn enedigol o blwyf Llanglydwen. Ar gyfrifiad 1861 ceir Esau Evans yn was ffarm ym Moche, ond erbyn cyfrifiad 1871 roedd yn löwr dwy ar hugain oed yn byw gyda'i frawd David a'i deulu yn Hirwaun, sir Forgannwg. Yn Hirwaun bu Esau yn aelod o Gapel Nebo ac yn organydd yno, a dyma lle y cyfarfu â'i wraig Joan Rees.

Yn 1875 ymfudodd Esau a'i deulu i Batagonia, ac ymhen rhai blynyddoedd aeth am dymor i Sauce Corto, Buenos Aires, ac i'r Andes i chwilio am aur. Ceir cofnod bedydd Esau David, mab Esau a Joan Evans ar 6 Gorffennaf 1885 yn Sauce Corto a bedyddiwyd Christmas, mab arall iddynt a anwyd ar 25 Rhagfyr 1886, yn yr un lle ar 14 Awst 1887. Derbyniodd Esau Evans yr alwad i bregethu ac felly dychwelodd i Gymru a chael ei ordeinio yn Heol y Cerrig, Merthyr Tudful, cyn dychwelyd i Batagonia yn 1891. Bu'n arweinydd y gân gynulleidfaol a chorawl yn Gaiman am flynyddoedd, yn ddiakon ac Ysgrifennydd yr Eglwys.

Ymhlith casgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol (LIGC 22966C) ceir englyn i'r Parch. Esau Evans gan ei gefnder, Y Parch. John Lloyd James ('Clwydwenfro'):

At "Epynt Byr" y gyrraf - y llythyr  
Nid llwythog ystyriaf;  
Yn gysur i un geisiaf  
O dderbyn hwn erbyn haf

Ar ei garreg fedd ym Mynwent Gaiman ceir y coffâd canlynol:

Er Serchog Goffadwriaeth  
am y  
Parch Esau Evans  
Ganwyd yn Llanybri, Sir Gaerfyrddin  
De Cymru, Gorffennaf 13 1848

Daeth i'r Wladfa yn y flwyddyn 1875  
Bu yn Weinidog ffyddlon ar Eglwys y Cwm ac Esquel  
Bu farw Ionawr 1af 1921  
Yn 72 mlwydd oed

Wele fedd gŵr anwyl fu - yn gennad  
Llawn, Honest dros Iesu:  
O'i orchwyl aeth i ddyrchu  
Salm y gwaed yn Salem gu

#### JOHN CAERENIG EVANS

Ganwyd John Caerenig Evans yn Llanddewisol ym mhlwyf Llanfihangel Aberbythych, sir Gaerfyrddin ar 20 Ebrill 1837. Bu farw ei dad Phillip mewn damwain yn y pwll glo a'i gladdu yn Llandybie ar 16 Mai 1840, yn 44 mlwydd oed. Roedd y teulu'n byw adeg cyfrifiad 1841 yn Nhir Dan-y-graig, plwyf Betws: Mary Evans (40) a'i phlant Thomas (14), David (5) a John (3), ond symudodd y teulu i Grennig Fawr, Glanaman, yn fuan wedyn. Er i'w dad gael ei ladd yn y pwll, aeth John Caerenig yntau i'r lofa yn naw mlwydd oed a gweithio yno nes cyrraedd ei chwech ar hugain. Ym 1863 cafodd ei dderbyn yn efrydydd i Goleg Presbyteriaidd Caerfyrddin ac ar ôl pedair blynedd yno fe'i hordeiniwyd yn weinidog ar Eglwys Moriah, Cwmaman, Aberdâr, ar 28 Awst 1867. Bu'n weinidog llwyddiannus a phoblogaidd yng Nghwmaman hyd 1874 pan ufuddhaodd i'r ysfa i fynd i'r Wladfa, gyda'i wraig Hannah Harries, a briododd ym mis Tachwedd 1868, a thri o blant bach (ganwyd pump arall yn y Wladfa). Arwydd o'i boblogrwydd yw'r ffaith fod nifer o'i gynulleidfa wedi ymfudo i'w ganlyn yn 1875. Rhoddodd wasanaeth gwerthfawr i'r Wladfa yn nyddiau blin yr arloesi ac ef a David D. Roberts oedd y ddau gyntaf i ddod i fyw i gyffiniau Gaiman. Dechreuwyd cynnal Ysgol Sul yn ei gartref yn Nhachwedd 1874 ac wedi iddo fod yn pregethu yn nhai'r ardal am flwyddyn, sefydlwyd Eglwys Annibynnol Gaiman ar Awst 1876 gyda J. C. Evans yn weinidog arni.

Daeth ei brofiad fel glöwr yn ddefnyddiol ym mlynnyddoedd cyntaf y Wladfa, yn enwedig parthed y ffosydd. Gweithiai J. C. Evans yn galed ar hyd yr wythnos a phregethai ar y Saboth, a hynny am ddim neu'r nesaf beth at ddim. Cafodd ei ethol yn Ynad Heddwch yn etholiad 30 Gorffennaf 1886. Rhoddodd darn o dir lle'r adeiladwyd ysbyty sy'n dwyn ei enw, Ysbyty J. C. Evans. Wedi pregethu am dros hanner can mlynedd yn ddi-fwlch bu farw'n 77 mlwydd oed ym mis Rhagfyr 1913. Rhagflaenodd ei wraig Hannah Evans ef ar 4 Awst 1911.

#### ELIZA EVANS DE WILLIAMS

Ganwyd Eliza Evans, chwaer y Parch. John Caerenig Evans ar 2 Hyd. 1831 a bu'n rhaid iddi fynd i weini pan yn bur ifanc. Bu bron iddi ymfudo i'r Unol Daleithiau gyda'i brawd David, ond yn lle hynny aeth i'r Wladfa yn 1874 gyda'i brawd John Caerenig. Priododd Thomas S. Williams yn 1899 a symud i Gwm Hyfryd, ond wedi marwolaeth ei gŵr yn 1907 dychwelodd i fyw yn y dyffryn. Bu farw ar 23 Medi 1931, naw niwrnod yn brin o'i phen blwydd yn gant; roedd ei mam wedi byw i gyrraedd ei 94 mlwydd oed a John Rees, brawd ei mam, wedi marw yn 96 mlwydd oed.

## JOHN DANIEL EVANS

Er i John Daniel Evans gael ei eni yn Aberpennar, sir Forgannwg, yn 1862, un o deulu fferm Ty'n y Waun, Pont-henri, sir Gaerfyrddin, oedd ei dad Daniel, tra roedd ei fam, Mary, yn enedigol o Aberdâr. Aeth John Daniel allan i Batagonia gyda'i rieni yn 1865 a datblygu'n un o'r marchogwyr gorau yno, yn anturiaethwr gwrol, ac yn arweinydd medrus.

Bu llawer o sôn am aur a mwynau ar lannau afon Camwy a dewiswyd John Daniel Evans fel arweinydd ar gyfer taith archwiliadol ar ddiwedd 1883 oherwydd ei fod yn gyfarwydd iawn â'r paith ac arferion y brodorion. Yn ystod y daith hon yr ymosodwyd ar John Daniel Evans a'i gyfeillion gan Indiaid yn Nyffryn Kel Klein, a lladdwyd ei dri chydymaith. Cafodd John Daniel Evans ddihangfa wyrthiol drwy ddewrder ei ebol Malacara.

Yn 1885 anfonwyd cais at Raglaw cyntaf Chubut yn gofyn iddo drefnu taith i'r ardaloedd wrth odre'r Andes gyda golwg ar greu sefydliad newydd. Dewiswyd John Daniel Evans fel 'baqueano' neu arweinydd, ac yn ystod y daith honno y gwelodd y gwladfawyr Gwm Hyfryd am y tro cyntaf. Ym mis Hydref 1886 priododd Elizabeth Richards (1863-1897), merch Dafydd Jones a'i wraig ac yn Hydref 1891 symudodd John Daniel Evans a'i deulu i Gwm Hyfryd. Gwelodd fod angen melin yn y fro gan fod llawer o'r sefydlwyr yn cael cynaeafau da. Dechreuodd ar ei waith fel melinydd ar raddfa fach, ond gyda'r arian a gafodd gan Lewis Jones am ei dywys o gwmpas y Cwm pan oedd hwnnw'n chwilio am dir da ar gyfer cwmni'r rheilffordd, prynodd felin arall oddi wrth ei chwaer Elizabeth, gweddw Zacharias Jones. Y felin oedd canolbwynt y pentre a ddaeth i fodolaeth o amgylch tir John D. Evans a rhoddwyd yr enw Trevelin ar y pentref maes o law. Yn y pen draw, adeiladwyd y felin a welir heddiw yn Nhrevelin a ffurfio'r Cwmni Molino Andes Juan D. Evans y Cía. Roedd ganddo hefyd ddiaddell o ddefaid ar ei dir. Bu farw Elizabeth ei wraig yn 1897 gan ei adael gyda chwech o blant i ofalu amdanynt. Yn 1900 priododd Annie Hughes de Williams, yn enedigol o Lanfachrell, sir Fôn, gwraig weddw â dau o blant, a chafwyd pum plentyn arall o'r briodas hon.

Bu'n frwd iawn ei gefnogaeth i achosion yn ymwneud ag addysg a chrefydd a gwnaeth ei orau i gynnal perthynas heddychlon a chyfeillgar gyda'r brodorion. Bu'n ddyfal i gael ysgol ddyddiol i'r lle ac yn ei dŷ ef y cynhaliwyd yr ysgol gyntaf. Yn ogystal, bu'n gyfrifol am adeiladu amryw o dai llewyrchus ac mae'n debyg mai ef oedd y cyntaf i berchen car yn y Cwm. Caiff glod yn ogystal am drefnu cysylltiad ffôn rhwng Trevelin ac Esquel a thu hwnt. Ym mis Mawrth 1923 aeth am ymweliad â Chymru a Ffrainc, a phan yn Llanelli ceisiodd, yn aflwyddiannus, i weld a oedd rhywun yn cofio gwraig Richard D, Davies, un o'r rhai a laddwyd yn Cel-Cein. Ym Mai 1928 aeth ar ail daith i Gymru, Ewrop a'r Dwyrain Canol, ac yn 1934, ac yntau'n 72 mlwydd oed, aeth i Chile i geisio trafod gyda chynrychiolwyr y Llywodraeth yn Santiago ynglŷn â'r posibilrwydd o wella'r ffordd drwy'r Andes o Fro Hydref i Chile. Bu farw yn ei gartref yn Nhrevelin 6 Mawrth 1943 yn 81 mlwydd oed.

## WILLIAM EVANS, MAES YR HAF

Ganwyd William ar 10 Awst 1851 ym Mhont Garreg, Trelech, yn fab i Thomas a Mary Evans. Collodd ei fam pan oedd tua deng mlwydd oed ac yn ugain mlwydd oed gadawodd y fferm a symud i Pentre, Rhondda, i weithio yn y pwll glo. Ar 27 Medi 1874 priododd ag Elizabeth Davies, merch Daniel a Mary Davies, Felin Newydd, Cynwyl Gaeo, a blwyddyn yn ddiweddarach ymfudodd y ddau i'r Wladfa.

Adeiladodd William dŷ mawr frics ar ei fferm, Maes yr Haf, Bryn Gwyn. Rhwng 1876 a 1887 cafodd William ac Elizabeth un ar ddeg o blant: Cyrus (23 Chwefror 1876); Mary (7 Chwefror 1878); Thomas (15 Mehefin 1880); Gwilym (21 Mehefin 1882); John (10 Chwefror 1884); Gwen (12 Awst 1887); Daniel R. (27 Mawrth 1890); Myrddin (15 Ionawr 1892); Madryn (13 Gorffennaf 1894); Dyfed (10 Ionawr 1897) ac Elizabeth Ann (11 Ionawr 1897).

Dywed cofiant amdano yn *Y Drafod* i'r teulu fynd am dro i Gymru yn 1893 ac iddynt aros yno am bron i ddwy flynedd. Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru nifer o lythyron a ysgrifennwyd gan aelodau'r teulu, yn cynnwys un gan 'C. Evans' o Vigo yn Sbaen ym mis Mai 1874, sy'n disgrifio rhan o'r daith yn ôl i Batagonia ar y *Potosi*.

Anfonwyd llythyr arall o Faes yr Haf, Bryn Gwyn, ar 16 Ionawr 1895:

'Dear Miss Davies. I just send you a Lion's nail to you to make a broach [*sic*] also Mary is sending one to your sister Hannah. We can't send you skins now we don't know of nobody coming back there for a long time but we will send them with the first chance we get.'

Yn 1898 anfonwyd y tri hynaf, Cyrus, Tomas a Mary, i dderbyn rhan o'u haddysg yng Nghymru. Yn 1907 aeth mab arall, John Camwy, yn fyfyrwr i goleg rhag paratoadol yng Nghaerfyrddin, wedyn ymlaen i Goleg Bala Bangor a chael ei ordeinio ym Mehefin 1915 yn Weinidog gyda'r Annibynwyr. O 1915 i 1931 bu'n Weinidog Capel Pendref ac yn Gynghorydd Sir, o 1931 i 1947 yn Weinidog yng Nghapel Lloyd Street, Llanelli, ac o 1948 i 1954 ym Mlaengarw, sir Forgannwg. Dychwelodd i'r Gogledd a threulio gweddill ei oes yn ei gartref 'Snowdonia', Dinas Dinlle. Bu farw yn 1963 a'i gladdu ym mynwent Capel Cana, Llanddaniel Fab. Priododd Emily Crump yn 1915 ac aeth y ddau ar ymweliad â Phatagonia yr un flwyddyn. Ar 25 Medi 1918 derbyniodd lythyr oddi wrth Swyddfa Prif Gwnstabl Caernarfon yn ei hysbysu nad oedd yn cael ei gyfrif yn estron bellach ond fel dinesydd Prydeinig.

Bu dau o feibion William ac Elizabeth Evans yn gweithio i'r Co-op yn Gaiman. Yr oedd Cyrus yn dirfesyrydd trwyddedig a bu Tom yn arolygydd cangen o'r CMC yn Comodoro Rivadavia am flynyddoedd ac yn Ynad Heddwch am ysbaid. Bu farw Myrddin ar 5 Gorffennaf 1919 a Mary, gwraig David T. Williams (Bryn Gwyn) ar 16 Ebrill 1929. Priododd Cyrus Gymraes, Maria, merch William Jones Fferm Caerfyrddin ger Gaiman. Ychydig yn ddiweddarach priododd Gwilym, mab arall ag Ann, chwaer Maria. Priododd Tomas â Mary Ellen Morgan a gwneud eu cartref yn Comodoro Rivadavia. Gŵr cyntaf Gwen oedd Hugh Parry, a Stephen Williams ei ail ŵr. Priododd Daniel Roderick gyda Sara Jones, Madryn ag Alice Jane Pierce, Dyfed â Maud Lloyd Jones ac Elizabeth Ann â Lemuel Roberts.

Roedd parch mawr tuag at William Evans, Maes yr Haf, yn y gymuned Gymreig, a chwaraeodd ran flaenllaw yn datblygu a gwella'r sefyllfa yn Nyffryn Camwy, yn enwedig ym maes dyfrhau. Am nifer o flynyddoedd bu'n Ysgrifennydd y 'Co-op'. Bu'n

gefn i adeiladu capel cyntaf yr ardal a bu'n athro Ysgol Sul ac Arholwr. Yn gefnogol dros Fudiad Addysg, bu'n gyfrwng i adeiladu'r Ysgol Ganolraddol yn Gaiman. Bu William Evans farw ym mis Mehefin 1931.

#### ELIZABETH FOOTMAN

Dywed Albina Jones de Zampini mai o Hafod Wen, Caerfyrddin, yr hanai Elizabeth Footman a aned yn 1863. Mae'n bosibl mai merch Charles ac Anna Footman oedd hi. Yn chwarter Mehefin 1885 priododd Eleazar Garnant Morris yr honnir iddo gael ei eni yng Nghilfynydd, Morgannwg, yn 1858, ond yr unig Eleazar Morris o'r oedran cywir a gafwyd ar gyfrifiad 1861 ac 1871 oedd hwnnw a aned ym mhlwyf Betws, Caerfyrddin, yn fab William ac Anne Morris. Cofnodir geni plentyn o'r enw Eleazer Morris yn chwarter Rhagfyr 1857 yn ardal cofrestru Castell Nedd.

Ar ôl priodi ymfudodd Eleazar ac Elizabeth i Coronel Suarez yn hytrach nag i'r Wladfa. Priododd eu merch Edith ag Evan Rees, Pantglas, ar 2 Gorffennaf 1921 ond bu farw ar enedigaeth plentyn yn 37 mlwydd oed ar 12 Ebrill 1935, gan adael priod a phedwar o blant bach.. Priododd Alice Morris â Thomas Daniel Evans, Dirgo Eduardo ag Ethel Mair Shae, Edith ag Evans Rees, Elizabeth â Joel Maradei, Blodwen â John Owen, Winifred ag Edward R. Evans, Myrddin â Dina Visconte, Tudor ag Ivy, Eleazar â Rowena Morris, George Phillip ag Amelia Andersh a Leonard â Carmen Cobo; priododd Arthur Corwen â Meirionwen Pugh merch Gwilym J. Pugh, Gaiman, ar 16 Hydref 1935; roedd William Charles yn hen lanc

Bu Eleazar farw ar 30 Medi 1930 yn Coronel Suarez ac Elizabeth 17 Mehefin 1915 yn Coronel Suarez..

#### ANN HOPKINS

Ganwyd Ann Hopkins, merch William Hopkins a Margaret Davies, yn Llwynhendy tua 1864. Ar gyfrifiad 1871 roedd Margaret, gwniadwraig, yn weddw 41 mlwydd oed, ei mab Joseph yn 21, ac Ann yn wniadwraig 17. Yn 1889, yn 25 mlwydd oed, gadawodd Ann am Batagonia gyda'i mam, Margaret. Cynhaliwyd cyfarfod ffarfelio gan aelodau Soar, Capel y Bedyddwyr, Llwynhendy, pryd y cyflwynwyd Beibl iddynt. Blwyddyn ar ôl cyrraedd y Wladfa priododd Ann â Walter Roberts a aned yn Rhewl ger Dinbych yn 1866, yn fab i Thomas Roberts, crydd, ac Elizabeth Williams.

Er mai gwniadwraig oedd Margaret Hopkins yng Nghymru, bu'n ffermio yn ardal Drofa Dulog yn y Wladfa ac ar gyfrifiad Chubut yn 1895 gwelir fod Walter yn berchen tir yn, neu yn ymyl Gaiman ac yn ffermwr. Erbyn 1897 roedd gan Walter ac Ann dri o blant - Joseph Hopkin (c. 1892), William Watkin (c. 1896) a Deborah Lizzy (c. 1897). Priododd Margaret Hopkins â William Rees ym Mhatagonia ond yn ddiweddarach dychwelodd i Gymru, i ardal Llwynhendy-Bynea i fyw gyda'i mab Joseph a'i deulu. Bu Margaret farw yn 1922 yn 82 mlwydd oed.

Dychwelodd Ann a'i theulu i Brydain, gan gyrraedd ar 7 Mehefin 1898 ar fwrdd y *Nile* ac ymsefydlu yn Bootle yn 1899 a Walter yn mynd i weithio fel briciwr. Ganwyd eu pedwerydd plentyn, Thomas Emlyn Roberts, yn Lerpwl yn 1899 a bu farw yno yn 1902. Dychwelodd y teulu i sir Gaerfyrddin ond yn 1912 ymfudodd Walter unwaith eto, y tro hwn i Awstralia, ac fe'i dilynwyd wyth mis wedyn gan Ann a'r plant.

Gellir olrhain hanes y teulu yn Awstralia yn llyfr Michele Langfield a Peta Roberts, *Welsh Patagonians. The Australian Connection*.

### RHYS JAMES

Roedd Rhys James yn hanu o Gil-y-cwm ond bu'n byw yn Nhroedyrhiw, Merthyr Tudful, am gryn amser. Aeth ar y *Vesta* yn 1886 i weithio ar adeiladu'r rheilffordd o Borth Madryn i Drelew ond dychwelodd i Gymru ar ôl cwblhau'r gwaith. Yn 1908 aeth yn ôl i'r Wladfa gyda'i deulu ond yn 1914 gadawodd y Wladfa eto ac ymgartrefu yng Nghwm Rhondda. Arhosodd ei fab Richard James yn y Wladfa a phriodi Mary S. Oliver, merch William Oliver Trelew ym mis Gorffennaf 1914 a gweithio i Gwmni Masnachu Camwy. Fe oedd ail perchennog Plas y Coed, Gaiman.

### WILLIAM MALIPHANT

Cafodd William Maliphant ei eni ar 17 Ebrill 1854, yn fab i John William Maliphant (cyn 1815 - 4 Ebrill 1878) a'i wraig Ann Evans (16 Hydref 1814 - 18 Tachwedd 1858). Priododd William Maliphant ag Ann Thomas yn 1879 a ganwyd eu merch gyntaf, Mary Ann, ar 3 Medi yr un flwyddyn, ond bu'r fechan farw ar 17 Ionawr 1882. Ar gyfrifiad 1881 gwelir y teulu bach yn byw yn Water Street, Cydweli; roedd William yn Saer Maen 26 mlwydd oed, Ann ei wraig yn 27, a Mary A. yn flwydd oed, ac roedd rhieni Ann, William Thomas, Morwr di-waith 67 mlwydd oed ac Ann Thomas, 63 mlwydd oed, yn byw gyda nhw. Cafodd Elizabeth Rebecca Maliphant ei geni ar 20 Medi 1881 ond bu farw'r fam ar 28 Awst 1897. Priododd Lizzie Rebecca Maliphant a David Iâl Jones (mab John Erryrus Jones ac Anne Harrison a ymfudodd i'r Wladfa yn 1886) yn y flwyddyn 1908 a buont yn byw yng Nghydsweli nes i David Iâl penderfynu dychwelyd i Batagonia yn 1912. Hwylodd y teulu ar y *Potosi* - David Iâl, ei wraig Lizzie Rebecca, eu tri phlentyn a William Maliphant ei dad yng nghyfraith. Cafodd Lizzie Rebecca a Dafydd Iâl naw o blant - Ynyr (hen lanc); Valmai briododd Harold Jones; Hefin briododd (1) Isabel Peralta a (2) Adelina Narducci; Alba bu farw yn chwe wythnos oed; Olga fu farw yn 20 mlwydd oed; Gloria fu farw ar ei genedigaeath; ei efail Valeira briododd Orlando Oscar Puw; Arianina briododd Thomas Einion Roberts ac Albina briododd Virgilio Francisco Zampini.

Mae Albina Jones de Zampini wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy i hanes teulu y Cymry a aeth i Batagonia gyda'i llyfrau, *Reunión de familias en el Sur* (dwy gyfrol) a *Cien Atuendos y un Sombrero*. Ysgrifennodd ei chwaer, Valmai Jones, *Atgofion am y Wladfa*.

Bu Lizzie Rebecca farw ar 7 Ebrill 1961 a David Iâl ar 16 Hydref 1962.

### JOHN LEWIS MORGAN

Ganwyd John (Juan) Lewis Morgan yn Alejandra, yn Santa Fe, yr Ariannin, ar 23 Hydref 1892, yn fab i David Morgan a aned yn Llandyfaelog ar 21 Chwefror 1849 i James Morgan a'i wraig Lydia Richards. Roedd James Morgan yn frawd i John Morgan, Pwll-glas, a ymfudodd i Batagonia ar y *Mimosa* cyn symud i ardal Rosario yn Santa Fe. Bu Juan Lewis Morgan yn fyfyrwr yng Ngholeg Llanymddyfri rhwng Medi 1907 a Mawrth



1908, gan aros gydag aelodau'r teulu yn Llandyfaelog yn ôl y sôn, cyn mynd ymlaen i Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Caerfyrddin a, o bosib, i Goleg y Drindod Caerfyrddin. Roedd ei fodryb Margaret wedi priodi gŵr o'r enw William Jones ac yn dal i fyw yn yr ardal, ac anfonwyd un o'u meibion, William, allan at ei ewyrth yn Alejandra i adfer ei iechyd. Yn ddiweddarach bu Juan yn gweithio fel Peiriannydd gyda Chwmni Ffowndri Thomas a Clement yn Llanelli. Chwaraeodd rygbi i glwb Oriental Stars, Llanelli, gan chwarae dros Gymru yn erbyn De Affrica yn 1912 a Lloegr yn 1913. Hwylodd o Lundain i'r Ariannin ar yr agerlong *Highland Loch* o Gwmni Nelson Steam ar 8 Mai 1913 a dychwelyd i Alejandra lle bu'n ffermio cyn symud, yn 1932, i Chaco yng ngogledd yr Ariannin lle daeth yn swyddog gyda'r heddlu. Bu farw yn Campo Largo, Chaco, yr Ariannin, ar 7 Gorffennaf 1947.

#### DAVID MORGAN

Ymfudodd David Morgan, tad John (Juan) Morgan gyda'i frawd Richard i ardal Rosario ar yr agerlong *Oneida* ym mis Awst 1870, ac yn nes ymlaen symudodd unwaith eto, i ardal Alejandra y tro hwn. Ar 5 Medi 1878 priododd Susana Alejandra MacLean a aned yng Nghalifornia a chawsant 13 o blant – Susana Lidia, Maria Margarita, Ana Francisca, Santiago Alejandro, Guillermo David Ricardo, Evan, Graciana Isabel Modesta, Juan Luis, Elvira Evelina, José Arturo Juan, Dora Adelina Sofia a Claudio Alberta. Bu David Morgan farw ar 8 Mai 1933 yn 84 mlwydd oed.

#### RICHARD MORGAN

Ganwyd Richard Morgan, mab James Morgan a Lydia Richards, yn Llandyfaelog yn 1851, ac ymfudo gyda'i frawd David yn 1870. Ymsefydlodd ar lot 16 yn ardal Alejandra a mynd ati i dyfu cnydau grawn. Anfonodd negeseuon i Gymru yn cymell y teulu i ymfudo i'r Ariannin gan ddweud fod y bwyd yn rhatach a bod digonedd o fara, coffi, llaeth, wyau ac ati. Pan benderfynodd ail sefydlu yn yr un ardal â'i frawd, gwerthodd y tyddyn a gafodd gan John Morgan a chyda John Thomas Pugh prynodd fferm yn ardal Alexandra. Aeth am dro i Gymru yn y flwyddyn 1877 a daeth ei frawd hyn, John, oedd wedi dioddef salwch difrifol ond yr ymddangosai ei fod wedi adfer ei iechyd, gydag ef. Gwaetha'r modd, ar ôl tair blynedd bu farw John ac fe'i claddwyd ym Mynwent Alejandra. Wedi hynny, aeth Richard yn dipyn o grwydryn heb gartref sefydlog a heb unrhyw awydd i dychwelyd i Gymru. Bu farw 15 Tachwedd 1911 ym mhentref Romang.

#### THOMAS EDWARD MORGAN

Ganwyd Thomas Edward Morgan yn sir Gaerfyrddin yn 1850. Mewn coffâd iddo a ymddangosodd yn *Y Drafod*, dywedir iddo ymfudo i'r Wladfa o Lerpwl yn 1875 ond dywed Albina Jones de Zampini yn ei llyfr *Cien Atuendos y un Sombrero* iddo ymfudo o Gaerfyrddin yn 1874. Priododd Elizabeth Williams, merch John ac Elizabeth Williams (Glandwrlwyd) ar 6 Mai 1908 a chawsant ddeg o blant - Elizabeth briododd Evan John Roberts; Emiah (Martin Binner); John Myrddin (Elizabeth Jones), Emily (David Owen),

Gwen (Ebenezer Awstin), Dinah (Albert Coslett Thomas), Gladys (Alfred Thomas), Thomas (Mair Vaughan), Aeron (Maud Griffith), Mabel (Aristides Goliz) a Luther.

Bu Thomas E. Morgan farw ar 4 Awst 1913 yn 63 mlwydd oed; roedd ei wraig yn Awstralia ar y pryd. Bu Elizabeth Morgan farw ar 20 Mai 1949.

### THOMAS GWILYM PRITCHARD

Ganwyd Thomas Gwilym Pritchard ('Glan Tywi'), ar 23 Tachwedd 1846, mewn ffermdy o'r enw Dugoedydd at lan afon Tywi, plwyf Llanfair ar y bryn, sir Gaerfyrddin yn un o saith o blant David ac Annie Pritchard. Tua'r flwyddyn 1862 ymfudodd y teulu i'r Unol Daleithiau, ond dychwelodd Thomas i Gymru gyda'i gefnder D. B. Williams tua diwedd 1875. Ar ôl crwydro dipyn yng Nghymru, aeth y ddau i Lerpwl i gyfarfod mintai Mr Edwin C. Roberts oedd ar gychwyn i'r Wladfa. Gadawsant ar y *Vandyke* ar 25 Tachwedd 1875 gan gyrraedd Buenos Aires fore dydd Nadolig, a hwylio am y Camwy yr un diwrnod ar yr agerlong *Santa Rosa*. Dywedir ei fod yn ddyn o athrylith, yn berchen ewyllys gref ac yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau, yn ddyn hunan diwylliedig, yn ddarllenwr mawr ac o farn bwylllog ac ystyriol. Yr oedd yn athro wrth reddf a bu'n ysgolfeistr ysgol ddyddiol Trerawson i gychwyn, cyn cael ei benodi gan y Pwyllgor Addysg yn athro Ysgol Glyn Du ar gyflog o £30 y flwyddyn, ei fwyd a llety, ym mis Mehefin 1877. Ymhen blynnyddoedd wedyn aeth i gadw ysgol ym Mro Hydref. Yn y cyfnod rhwng cadw'r ysgol yng Nglyn Du ac ym Mro Hydref, bu'n gyfrifydd i John Murray Thomas yn Ystordy Pen-y-Bont, Rawson. Wedi iddo ddychwelyd o Fro Hydref penodwyd ef yn gyfrifydd cyntaf Cwmni Masnachol y Camwy a gwasanaethodd y Cwmni yn ysbeidiol am flynyddoedd. Gwasanaethai fel Arolygydd Darbodol yn absenoldeb y Prif Arolygydd, a chydabyddir ei fod, fel cyfrifydd, yn un o'r rhai blaenaf. Roedd yn fardd a llenor coeth; fel llenor ysgrifennai'n llithrig a naturiol mewn arddull dlos ac fel bardd, roedd yn feistr ar y grefft o farddoni yn y mesurau caeth a rhydd ac roedd cyfansoddi cân ddigrif neu gerdd duchan yn beth hawdd iddo. Enillodd y Gadair yn Eisteddfod gyntaf ardal Treorci a'r prif wobrwyon yn Eisteddfodau Rawson, y Fron Deg a'r Gaiman am gywyddau, prydestau ac englynion. Bu farw yn nhŷ ei gefnder D. B. Williams ar 12 Medi 1924 yn 78 mlwydd oed. Cofir amdano fel Athro, Cyfrifydd, Bardd a Beirniad.

### THOMAS REES

Ganed Thomas Rees ym Mhenbre, sir Gaerfyrddin, yn 1856 yn fab i Jonathan ac Esther Rees. Ar gyfrifiad 1861 roedd y teulu'n byw ym Mhant y rhiw, Pembre: John yn 'Copperman' 34 mlwydd oed wedi ei eni yng Nghynwyl Elfed, Esther yn 36, wedi'i geni yng Nghilrhedyn, Sir Benfro, Eliza yn 11 ac wedi'i geni yng Nghlydau, sir Benfro, John, 6, Thomas, 4, a David, blwydd oed, wedi'u geni ym Mhenbre.

Symudodd y teulu i ardal Aberdâr ac ar gyfrifiad 1871 roeddent yn byw yn 38 Forchaman Road, ond does dim son am Esther er bod Jonathan yn dweud ei fod yn ŵr priod: Jonathan yn 44, Hannah ei ferch yn 19, John yn 16 ac yn löwr, Thomas yn 14 ac yn löwr, David yn 12 a Benjamin yn 7, ill dau yn yr ysgol, a Margaret 4 mlwydd oed wedi'i geni yng Nghwmaman, Aberdâr. Ymfudodd y teulu i Chubut yn 1875 ac ar 31 Ionawr 1881 priododd Thomas Rees (24 mlwydd oed) â Mary Howells (19 mlwydd oed),

merch Morgan a Rebecca Howells. Symudasant i'w tyddyn eu hunain ar ochr ogleddol yr afon yn y Dyffryn Uchaf lle y ganwyd Esther, yn niwedd 1882, Ann, 1883; Isaac, 1894; Rebecca, 1896; Elizabeth Ann, 1897; Rachel, 1899; Meredydd, 1890; John M., 1892, a Daniel, 1895.

Yn 1902 ymfudasant i Ganada a ganwyd mab arall ond bu Morgan farw ym mrwydr fawr y Somme. Cyhoeddwyd llythyr dyddiedig Dydd Iau 30 Mehefin yn rhifyn 2 Medi 1927 o'r *Drafod* oddi wrth Thomas W. Morris, Box 4, Bangor, Saskatchewan, Canada, gyda theyrnged i Thomas Rees. Dywed iddo fyw bywyd llawn llafur mewn amryw gylchoedd fel amaethwr llwyddiannus, diwyd a threfnus ac aberthu gryn dipyn dros yr achos eglwysig ar hyd ei oes, yn pregethu, fel deacon am ysbaid, ac fel athro yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd. Yr oedd yn gerddor, yn llenor ac yn fardd.

### Y CADBEN WILLIAM ROGERS

Yn ôl ysgrif ar ei garreg fedd, ganwyd y Cadben William E. Rogers ym Mhen-bre ar 28 Ebrill 1827. Ganwyd ei wraig, Martha, yn Llanelli ar 2 Ionawr 1827, ac mae'n debyg mai hi yw'r Martha ferch David ac Elinor Williams, Heol Fawr, a fedyddiwyd yn Eglwys y Plwyf ar 17 Ionawr 1827. Ymunodd William Rogers â'r Llynges ac yn ystod Rhyfel y Crimea bu ymysg cwmnïau o forwyr o'r llongau rhyfel a laniwyd i weithio cyflegrau yn yr amddiffynfeydd ac ar yr ucheldiroedd. Aeth ei long adre tra'i fod yn y ffosydd ac adroddwyd ei fod wedi marw ar faes y gad; pan ddychwelodd adref roedd ei wraig mewn gwisg weddw, ac fe'i croesawyd ganddi hi a'i berthnasau mewn syndod, dryswch a llawenydd. Anrhydeddwyd William Rogers â phedwar medal am y rhan a gymerodd ym mrwydrau'r Alma, Sebastopol ac Inkerman. Aeth i weithio ar longau masnach nes dringo i safle capten ond yn 1862 denodd ei frawd ef i ymfudo i Bensusylvania gyda'i deulu. Roedd yno pan fu Abraham Matthews yn darlithio yn yr Unol Daleithiau yn 1874. Denwyd nifer o Gymry'r Taleithiau i fynd i'r Camwy, a phrynwyd y llong *Electric Spark*, i gludo'r ymfudwyr. Penodwyd William Rogers yn gapten arni, gyda chyflenwad o fwyd a diod i'r fordaith, celfi a pheiriannau amaethyddol a chyda 33 o ymfudwyr, nifer ohonynt yn bobl gefnog. Ar hanner nos, 26 Mawrth Ebrill 1874, aeth y llong yn ddrylliau ar y bar yn Tutoya ar draeth Brasil, ac er y llwyddwyd i achub pawb a chario deugain bocs o'r nwyddau i'r lan, bu'n rhaid gadael y nwyddau trwm, yn eu mysg peiriant dyrnu David R. Roberts. O'r diwedd cyrhaeddwyd Buenos Aires ac yn y Cartref i Ymfudwyr yno y buont, gydag Abraham Matthews a mintai'r Hipparchus, cyn i'r *Irene* eu cludo i'r Wladfa. Mewn cyfarfod cyhoeddus ar 17 Hydref 1874 croesawyd y newydd-ddyfodiaid, diolchwyd i William Rogers am arwain y fintai wedi iddynt golli eu llong a gwahoddwyd ef a'i deulu i ddod atynt yn fuan. Hwylodd yn ôl i'r Unol Daleithiau, prynwyd y llong *Lucerne* a chyrhaeddodd ef, ei deulu a 46 o ymfudwyr y Wladfa'n ddiogel.

Hwyliai William Rogers o'r Camwy i afon Negro yn y *Juan Dillon*, y llong yn llawn o gynhyrchion y Wladfa a dychwelyd gyda nwyddau angenrheidiol i'r Wladfa. Bu hefyd yn hela morloi ar y glannau gogleddol ac ynysoedd y De. Yn 60 mlwydd oed, ildiodd Rogers i ddeisyfiadau'r teulu a ffrindiau iddo roi'r gorau i forio. Bu'n byw yn Rawson am flynyddoedd cyn symud i ardal Bryn Crwn. Roedd yn ffyddlon yn achos Bryn Crwn ac yn cefnogi pob peth Patagonaidd. Yn 1908, yn 80 mlwydd oed, dychwelodd i fro ei febyd a chael croeso tywysogaidd gan berthynas a chydnabod yn ei hen sir.

Ar gyfrifiad a wnaed o drigolion y Wladfa yn 1895, gwelir y teulu: William (68), Martha (68), David (33), Joseph (24) a Sarah (28). Enwyd ei wyrion ar ôl y brwydrau y bu William Rogers ynddynt - Alma a Sebastopol.

Bu William Rogers farw ar 1 Ionawr 1909 yn 82 mlwydd oed a'i gladdu ym mynwent Gaiman gyda cherflun o long ar ei garreg fedd. Bu farw ei wraig Martha ar 13 Chwefror 1911 yn 83 mlwydd oed.

### DAVID COSLETT THOMAS

Ymfudodd David (neu Dafydd) Coslett Thomas, Elinor ei wraig a'u chwe phlentyn i Chubut yn 1875 ar y llong *Thames*. Yn ôl cart achau a gyflwynodd disgynnydd i'r teulu i'r Llyfrgell Genedlaethol, cafodd David ei eni ym Mhonterynefe ym mhlwyf Llanddeusant, ar 7 Awst 1836, yn fab i John Thomas, Gwehydd, a Mary Coslett. Eleanor Thomas oedd enw ei wraig, merch Jacob Thomas ac Eleanor Morgans, a aned ar Ddydd Nadolig 1835 yn Llandysiliogogo. Gweithiodd Dafydd fel glöwr yn y Rhondda cyn ymfudo; bu'r teulu'n byw yng Nghwm Ogwr, Rhymni, Tredegar, Penrhiwfer, a Thonypany, cyn adeiladu eu tŷ eu hunain ger tafarn y Miskin yn Nhrealaw. Yn ei hunangofiant mae eu mab Joseph Coslett Thomas yn adrodd yr hanes am y Parch. D. S. Davies yn traddodi darlith ar Batagonia yng Nghapel Ebenezer, Tonypany, a David yn ei wahodd i swper yn ei gartref. Roedd David ac Eleanor eisoes yn bleidiol i Batagonia, a'r noson honno, penderfynodd y teulu y byddent yn ymfudo i'r Wladfa pe bai modd, ac os byddai chwaer Elinor, Mary a'i gŵr Evan Oliver yn mynd hefyd. Dywed John Coslett Thomas i'w dad a'i ewythr roi'r gorau i'w swyddi, gwerthu'r tai a'r dodrefn, ac ar gyngor ei fam a'i fodryb prynwyd llestri llaeth ar gyfer godro, crymanau, pladur, aradr, og, ger i wedd, melin llaw i falu ŷd a chyflenwad o ddillad i'r plant.

Cawsant fferm yn ardal Tair Helygen ger Rawson ac yn ddiweddarach buont yn byw yn Nhrelew ac yn cadw gwesty bach. Cafodd eu merch Mary Ann a'i gwr Hugh Samuel Pugh 13 o blant ac roeddent yn cadw'r *casa de te* cyntaf yn Gaiman ac wedyn y gwesty cyntaf. O ran plant eraill Dafydd ac Eleanor, aeth William i fyny i'r Andes a bu'n gynhorthwy mawr i ddatblygu'r lle. Priododd Elizabeth Elin Jones ar 20 Mehefin 1891 a buont yn byw yng Nghwm Hyfryd. Priododd John gyda Caroline M. Jones, bu'n ysgolfeistr, yn ffermwr a bu'n chwilio am aur cyn cymryd ei deulu i Ganada. Ym Mangor, Saskatchewan agorodd sawl stôr. Symudodd i Los Angeles yn 1920 a bu farw yno yn 1936 yn 72 mlwydd oed; cymerwyd ei gorff yn ôl i Ganada i'w gladdu ar 5 Tachwedd 1936 ym Mangor, Saskatchewan. Priododd Evan ag Edith Williams a byw yn Nhrelew tra bu Catherine farw tua 1918 yn Rawson. Priododd Sarah gyda Gwilym Williams a buont yn byw yn ardal Moriah ac yna yn Sarmiento. Priododd Elizabeth Ellen gyda George Williams ac aethant i Awstralia; priododd Joseph Sarah Ann Jones ac aethant hwy hefyd i Awstralia.

Bu David Coslett Thomas farw yn 1923 yn 87 mlwydd oed ac roedd Eleanor ei wraig wedi marw ym mis Chwefror 1918. Aeth Mary ac Evan Oliver i Awstralia yn 1915 ond daethant yn eu holau i Batagonia yn 1919, er bod rhai o'u teulu wedi aros yn Awstralia.

## JOHN WILLIAMS, BRYN AFALLON

Ganwyd John Williams yn Aberdâr ar 15 Gorffennaf 1874, ond dywedir fod ei dad o ardal Caeo a'i fam o Abergorlech. Aethant i'r Wladfa yn 1875 pan oedd John yn flwydd oed. Roedd eu cartref cyntaf yn Nhrofa Hesgog ond symudodd y teulu i Fryn Amlwg yn ardal Bryn Gwyn. Cafodd John ei addysg yn hen ysgoldy Cefn Hir, a bu'n gweithio ar dyddyn ei rieni tan Ionawr 1928 pan ddechreuodd weithio ar ei gyfrif ei hun. Roedd yn aelod o Eglwys Bryn Gwyn am flynyddoedd. Honnir ei fod yn ŵr o syniadau cywir a gonest. Aeth i Buenos Aires ar gyfrif ei iechyd a bu farw yn 3 Mehefin 1937.

## JOSIAH WILLIAMS

Ymfudodd Josiah William o Dreherbert yn y Rhondda, ond un o sir Gaerfyrddin oedd e'n wreiddiol. Fe'i ganed yn 1831, yn fab i Benjamin Williams a'i wraig Esther oedd yn byw ym Mlaenrhyd, Abernant, plwyf Cynwyl Elfed ar adeg cyfrifiad 1841. Bu Benjamin farw cyn 1851 a dychwelodd ei weddw Esther i'w phlwyf genedigol, Trelech-a'r-Betws, gyda'i phlant ieuengaf Mary, 13, Esther, 8 a Benjamin, 5.

Priododd Josiah gydag Ann Williams, a aned yn Abergwili, yn 1855 ac roeddent yn byw yn rhif 47 Penheolferthyr, Merthyr Tudful, yn 1861 gyda'u merch fach pedair blwydd oed, Jane, ac erbyn cyfrifiad 1871 roedd y teulu wedi symud i Benyreglyn, Treherbert yng Nghwm Rhondda - Jane (ganed 1857), Benjamin (1862) ac Esther (ganed 18 Mai 1867). Cyn ymadael am Batagonia rhoddwyd Beibl gyda chyflwyniad dyddiedig 5 Medi 1875 i Josiah gan Weinidog ac aelodau Capel Carmel, lle bu Josiah yn Athro.

Ymsefydlodd Josiah a'r teulu ardal Glyn Du, rhwng Rawson a Threlew, lle bu'n ffarmio am saith mlynedd. Roedd ganddo dda corniog a gwerthai ymenyn a chaws. Josiah oedd y cyntaf i adeiladu ei dyddyn o frics llosg ar y llecyn a fesurwyd allan i ffurfio Trelew, Ynghyd â Rhyddderch Hughes, Richard Jones 'Glyn Du', Thomas Jones 'Glan Camwy', John Howell Jones ac eraill hyrwyddodd adeiladu Capel Moriah lle bu'n aelod ac yn un o'r diaconiaid cyntaf. Fe'i disgrifiwyd fel athro da ond cynghorwr gwell, yn ŵr cywir ac egwyddorol, gonest a darllenwr cyson. Yn nes ymlaen, wedi iddo symud i ymyl Trelew yn 1882, bu'n ddiakon yng Nghapel Tabernacl, Trelew, yn Athro Ysgol Sul ac yn aelod o'r côr.

Bu farw ei wraig Ann ar 25 Rhagfyr 1908 yn 77 mlwydd oed; roeddent wedi bod yn briod am 53 mlynedd ac wedi dathlu eu Priodas Aur yn 1905. Yn rhifyn 12 Rhagfyr 1915 o'r *Drafod* nodwyd mai Josiah oedd y person hynaf yn y Wladfa, yn 84 mlwydd oed. Priododd Jane eu merch gyda Peter Jones a chael James, Annie, Margaret, Claudia, Esther, Samuel, Mary, Benjamin a Hannah. Priododd Benjamin ei brawd gydag Enid Hughes ac roeddent yn rhieni i Sephora, Dyfed, Josiah, Gryffydd a Milkah. Bu Enid farw 4 Tachwedd 1938 a Benjamin 21 Mawrth 1939. Priododd Esther gyda John Samuel Hughes, mab Elizabeth (Betsi) Hughes (Boncyn) ar 5 Gorffennaf 1893, a chawsant 7 o blant - Ann, Jane, Debora, Lydia, Mair, Josiah ac Elizabeth a fu farw o fewn tipyn i'r geni. Bu Josiah farw yn Nhrelew ar Ddydd Sul, 4 Hydref 1923, yn 92 mlwydd oed.

## DAVID BEYNON WILLIAMS

Dywedir fod David B. Williams yn hanu o Gilycwm, sir Gaerfyrddin, ac iddo gael ei eni yn 1852. Gadawodd Gymru pan oedd tua 21 mlwydd oed a mynd i Pittsburg, Pennsylvania, ond dychwelodd i Gymru er mwyn mynd i Batagonia yn Hydref 1875. Cyrhaeddodd y Wladfa ym mis Ionawr 1876. Treuliodd y blynyddoedd cyntaf mewn tŷ ar ochr deheuol yr afon o dre Gaiman, lle a alwyd yn 'Batch William Thomas yr Hen Lanc' lle cai pobl sengl yr ardal groeso cynnes, cwmni diddan a tho i'w cysgodi rhag yr elfennau. Yn 1879 priododd Gwen Jones, merch hynaf Thomas Morgan Jones a Mary ei wraig, a aned yn Ystradgynlais ar 20 Mai 1857 a dychwelyd i fyw yn Gaiman. Ymunodd â Robert E Edwards (Saer) i agor siop gof gan mai dyna oedd ei alwedigaeth. Roedd ganddynt westy bach yn Gaiman a fferm yn ardal Angustura a enwyd 'Pant y Celyn'.

Roedd David yn ddarllenwr mawr gyda diddordeb arbennig yn yr Unol Daleithiau. Roedd yn gefnder i'r Athro a'r bardd Thomas G Pritchard a chydag ef y teithiodd i Batagonia. Roedd Gwen yn wniadwraig fedrus ac yn un o'r ffyddloniaid gyda'r achos crefyddol. Cawsant 11 o blant: William (a aned yn 1880 ond a fu farw toc wedi'r geni); William Alexander (geni 1881 priododd Ann Jones); Thomas Beynon (geni 1882, hen lanc); Rachel Mary (1884 priododd Crommwell Griffiths); Emely (1885 bu farw'n faban); Emely Adeline 91886, priododd Llewelyn Griffiths); John Llewelyn (1889, priododd Esther Jones); Elizabeth Ann ( 1891, di-briod); Margaret (1893, priododd Daniel Williams); Morgan 91895, bu farw'n fluid oed); Sabatheg (1897, bu farw'n flwydd oed).

Bu David B. Williams farw 22 Gorffennaf 1835 yn 83 mlwydd oed ac ychydig dros fis yn ddiweddarach bu Gwen farw, ar 6 Awst, yn 78 mlwydd oed.

## MARGARET ANN WILLIAMS

Ganed Margaret Ann yn 1881, yn ferch i Evan Williams a Margaret neé Evans o Gaerfyrddin. Bu William yn gweithio ar reilffordd y Great Western yng Nghaerfyrddin. Ar gyfrifiad plwyf San Pedr, Caerfyrddin, 1891, roedd y teulu'n byw yn 19 Seymore Terrace, Evan yn dod o blwyf Llanllawddog a Margaret ei wraig o Abergwili. Priododd Margaret Ann y Parch. Tudur Evans, mab y Parch. John Caerenig Evans, ar 20 Tachwedd 1912 ac ymfudo i'r Wladfa. Roedd gan Margaret Ann lais soprano hyfryd a byddai'n canu unawdau mewn cyngherddau lleol. Bu farw eu mab ieuengaf, Eirwyn, yn ugain mlwydd oed ac yn Gaiman bu farw ei fab Ivano Evans yn ddibriod. Roedd eu hwyron, plant eu mab hynaf, Caerfryn Evans, yn byw yn Buenos Aires.

Bu Tudur Evans farw yn 1959 a Margaret Ann yn 1970. Roedd chwaer i Margaret Ann wedi priodi'r Parch. David D. Walters, a fu'n weinidog yn y Wladfa, ar 20 Mai 1908.

### **Casglwyd y wybodaeth o'r ffynonellau canlynol:**

Albina Jones de Zampini, *Reunión de familias en el Sur* (two volumes)

Albina Jones de Zampini, *Cien Atuendos y un Sombrero*

Michele Langfield and Peta Roberts, *Welsh Patagonians. The Australian Connection*

Michele Langfield and Peta Roberts, Welsh Patagonian Genealogical Index

*Y Drafod*

*Los Galeses de Santa Fe*

Erthygl gan Nan Evans, 'A New World Discovered' yn *Carmarthenshire Antiquary*, 1996

Cathrin Williams a May Williams de Hughes, *Er Serchog Gof: casgliad o arysgrifau o fynwentydd Y Wladfa*

John Jenkins, *Who's Who of Welsh International Rugby Players*

Os oes gan rywun fwy o wybodaeth am unrhyw deulu neu deuluoedd eraill o sir Gaerfyrddin a aeth i'r Wladfa, buaswn yn falch o glywed oddi wrthynt. Gellir cysylltu â mi trwy wefan Cymdeithas Cymru-Ariannin.

**Eirionedd Baskerville**